

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw Sue Davies (Tanyfron) a gweddill ei theulu yn dilyn marwolaeth ei mam yn ystod yr haf. Gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth. Cofiw'n am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd y mae Gwyn H. Davies (Hiraethog) ac yn yr Inffirmari y mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) ac Edith Maloney (Henllan). Anfonwn ein cofion at y tri, fel ag y gwnawn at y rhai fu yn yr ysbyty yn ystod yr haf – Bet Williams (Tanyfron); Morfudd Williams (Henllan); Enid Pierce, Kitty Parry, Eluned Roberts a Haydn Young (Llanefydd); Emyr Hughes (Groes); Elen Wyn Williams (Llansannan); a Lowri Gwyn Rossington a Stan Roberts (Llanfair). Mae eraill sydd heb fod yn dda hefyd ond diolchwn am y cadw sydd wedi bod ar bob un ohonynt. Hyderwn y byddant yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Hyderwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhodri a Gwenno Glyn (Hiraethog) ar enedigaeth merch – Llio Rhodri; i Ywain ap Rhys (Hiraethog) a Fiona ar enedigaeth mab – Tom Edward Theo Rhys; i Eilir Morris (Nantglyn) a Gemma ar enedigaeth mab – John Henry; i Iola Tait (Llanfair) a Brian ar enedigaeth mab – Gethin Iori Francis; i Eurgain a Dei Hughes (Llansannan/Llanfair) ar enedigaeth merch – Leusa Fflur; i Sion Euros Evans (Llansannan) a Catrin ar enedigaeth mab – Morus Eifion; ac i Alwyn Bedwyr Evans (Llansannan) a Laura ar enedigaeth mab – Pabo. Bydd digon o waith i'r gweinidog am sbel rwan!
- Llongyfarchiadau hefyd i Robert Henry a Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) oedd yn dathlu eu priodas aur ddechrau'r haf; i Meira Jones (Cefn Berain) fu'n dathlu penblwydd arbennig ddechrau'r haf, ac i Gwenllian Jones a Merfyn James (Henllan) sy'n dathlu penblwydd arbennig y penwythnos hwn.
- Llongyfarchiadau arbennig hefyd i Maria Jones (Groes) dderbyniodd y Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd yng Nghapel Mawr, Dinbych ddydd lau diwethaf. Diolchwn amdani, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.
(Os ydw i wedi gadael enw rhywun allan, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, hwyrach y byddwch cystal â chysylltu ag un ohonom rhag ofn nad ydi'r wybodaeth wedi ein cyrraedd.)

Darllenid Wythnos Nesaf

Eseia 51:1-6 (BCND tud.667 / BCN: tud.609)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Medi 2015

Darllenid y Dydd

Salm 27

(BCND tud.503 / BCN: tud.459)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso i chi heddiw i Oedfa'r Fro ar ddiwrnod arbennig yn ein hanes fel Gofalaeth. Bydd heddiw yn ddiwrnod o dathlu ffyddlondeb Duw ac yn gyfle i ni gychwyn cyfnod newydd yng nghwmni'n gilydd ac wrth draed ein Gwaredwr a'n Harglwydd bendigedig mewn moliant a chân. Os na fedrwch fod yn bresennol, cofiwch amdanom yn eich gweddïau, os gwelwch yn dda, fel y byddwn ni yn eich cofio chi.

Tybed ydach chi'n cofio'ch gwasanaeth derbyn a chael derbyn y cymun am y tro cyntaf? Yn eglwys Mynydd Seion, Abergele, y cefais i y fraint honno ac er nad oeddwn yn deall yn iawn beth oedd arwyddocâd yr hyn oedd yn digwydd, roeddwn yn deall digon i wybod fod oedfa'r cymun yn oedfa arbennig ym mywyd yr eglwys – cofio yr hyn a wnaeth Iesu trosom ac yn ein lle wrth farw ar Galfaria, cofio am ei atgyfodiad a'i esgyniad, a theimlo gwefr arbennig y geiriau “hyd nes y daw” sy'n mynegi hiraeth a gobaith pobl Dduw ym mhob oes. Wrth fynd ymlaen gyda'r Arglwydd mae'r cymun yn llenwi ag ystyr newydd o hyd ac ni fydd diwedd ar y rhyfeddu. “Rhyw newydd wyrth o'i angau drud a ddaw o hyd i'r golau.”

Gwefr arbennig felly fydd cael derbyn ugain o ieuencid y Fro i gyflawn aelodaeth yn Eglwys yr Arglwydd Iesu. Diolchwn am gefndir pob un ac am ffyddlondeb eu teuluoedd. Gweddiwn drostynt iddynt ddyfnhau eu hadnabyddiaeth o Iesu wrth iddynt ymateb i'w alwad yn eu bywydau. Byddwn hefyd yn derbyn Gwion a Sarah yn aelodau o eglwys Hiraethog a bydd Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, y Parch. Edwin Hughes yn eu comisiynu i waith y deyrnas yn ein plith. Mor fawr yw cariad Duw tuag atom, a'i ffyddlondeb i genhedlaeth newydd o'r rhai sydd yn ei garu. Diolchwn, fel y gwnawn yn gyson, am arweiniad Owain a Siân a'n cydweithwyr yng Ngholeg y Bala a diolchwn i Dduw am ffyddlondeb eu tystiolaeth a'u hymroddiad i Gomisiwn mawr yr Arglwydd i gyhoeddi'r Efengyl a gwneud disgyblion. Croesawn Owain i'n plith, fel pob amser, i arwain ein haddoliad heddiw.

Llawenydd mawr i ni oll oedd y newyddion am enedigaeth Llio Rhodri ar y 25ain o Awst. Canmolwn yr Arglwydd am ei roddion rhyfeddol a chawn gyfle i ddiolch i Rhodri a Gwenno yn ystod yr oedfa a dymuno yn dda iddynt am y cyfnod nesaf, cyffrous, sydd o'u blaen fel teulu yn Llundain. Gweddiwn am fendith arbennig arnynt fel teulu.

Mae geiriau olaf Salm 27 yn eiriau da i ni wrth feddwl am yr hyn sydd o'n blaenau, ac yn air da i ni wrth gofio holl ffyddlondeb yr Arglwydd yn ein gorffennol hefyd. “Disgwyl wrth yr Arglwydd, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr Arglwydd.”

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 6^{ed}

Oedfa Arbennig I'r Fro. Cynhelir oedfa arbennig yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 10.30** i gomisiynu Gwion Dafydd a Sarah Johnson i'r swydd 'Cynorthwydd Gweinidogaethol'; i ddiolch a dymuno'n dda i Rhodri a'r teulu sy'n symud i Lundain am flwyddyn; a hefyd i dderbyn ugain o ieuencid yr ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol. Bydd cyfle wedyn i fynd i'r Ganolfan i gael cinio ac i gymdeithasu. Dewch â phicnic hefo chi – cewch baned yno.

Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod y ras feics "Tour of Britain" yn dod trwy Lansannan heddiw tua 13:45 ac maen nhw'n disgwyl cyrraedd Dinbych erbyn 14:10. Mae'r heddlu wedi cadarnhau na fyddan nhw'n cau'r briffordd ac mai ychydig iawn o oedi fydd gan fod y beiciau yn teithio mor gyflym (fel y sylwch o'r amser uchod!), felly nid oes angen i neb boeni am hynny. Ni fydd modd i neb ohonom barcio ar y ffordd fawr, felly defnyddiwch feysydd parcio'r capel a Chanolfan Bro Aled, os gwelwch yn dda. Cafwyd caniatâd caredig hefyd i barcio, os bydd angen, yng nghae Hendre Llan sydd rhwng y capel a'r Ganolfan. Felly, peidiwch â chadw draw! Gan mai hon fydd yr unig oedfa y Sul hwn a chan ei bod yn oedfa arbennig, gobeithio y gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol. Croeso cynnes i bawb!

lau – 10^{fed}

Sadwrn – 12^{fed}

Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro yn Llanefydd am 7.30.

Taith Gerdded – "O Achos i Achos, her!" Y rhan olaf o'r daith o gwmpas capeli'r ardal. Cyfarfod wrth Ganolfan Tanyfron am 8.15, gan orffen yn Llanfair Talhaiarn. Hyd y daith: rhwng 7 ac 8 awr. Pellter: tua 12 milltir. Os am ddod, ac er mwyn cael mwy o fanylion, plis cysylltwch â Rhys Dafis (01745 870362/07946 299940) erbyn nos Fercher (9fed), fel y gallwn drefnu ceir a sicrhau y manylion angenrheidiol eraill.

O Danyfron, dewch hyd lonydd – culion,
enciliwn hyd foelydd,
bryn a phant, hyd lwybrau'n ffydd
i Soar os oes awydd. (Rhys Dafis)

Sul nesaf – 13^{eg}

Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.

Llansannan

Sul nesaf – 13^{eg} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Mawrth – 8^{fed} Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00 a bydd Mrs Nia Royles yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf – 13^{eg} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2:00.

Saron a Pheniel

Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron **am 2.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf – 13^{eg} Cynhelir Gwasanaeth Teuluol i'r daith yn Henllan am 2.00 gyda Dr Owain Roberts yn arwain yr oedfa.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf – 13^{eg} Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** nos Fawrth, Medi 15fed am 7.30 yng Nghapel Henllan. Y siaradwraig fydd Sarah Morris. Croeso cynnes i bawb.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel y Waen, Nantglyn nos lau, Medi 17eg. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.

Manylion Cyswilt

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com 📞 07849 591163
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com 📞 07900 308461
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.